Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

24 Gorffennaf 2019

Annwyl Kirsty,

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cytuno i wneud darn byr o waith i ystyried y sefyllfa bresennol o ran addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), nododd Llywodraeth Cymru fod cynlluniau ar y gweill i adolygu darpariaeth a strwythur addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Felly, rydym yn awyddus i ystyried datblygiadau yn y maes hwn mewn rhagor o fanylder, ac i wneud gwaith dilynol ar y pwyntiau a ganlyn:

- y rheoliadau a'r cynllun gweinyddol a grëwyd gan y Bil; ac
- ein gwaith yn 2018 ar wasanaethau allgymorth Dechrau'n Deg.

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd wedi cytuno i ddod i gyfarfod ar 2 Hydref i drafod addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Gan fod y ddarpariaeth addysg yn y maes hwn yn rhan o'ch cyfrifoldebau gweinidogol chi, roeddem hefyd am roi cyfle i chi gymryd rhan yn y gwaith hwn i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawn o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar draws portffolios y Cabinet. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y byddwch hefyd yn ymddangos gerbron y pwyllgor ar 18 a 26 Medi i gyfrannu at ymchwiliadau eraill. Gyda hynny mewn golwg, byddem yn croesawu papur gennych sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y materion ynghylch addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yr ydych yn gyfrifol amdanynt (neu bapur ar y cyd gennych chi a'r Dirprwy Weinidog os yw hynny'n fwy cyfleus).

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon erbyn dydd Mercher 18 Medi 2019.

Yn gywir,

Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565